# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 19 Chwefror 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14839

## 263

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 1 a 3 gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

### 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.05

Atebwyd gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am gynlluniau ar gyfer toriadau i swyddi a chyrsiau ym Mhrifysgol De Cymru?

Atebwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Heledd Fychan (Canol De Cymru): Pam mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £800,000 yn llai ar sicrhau gwaddol o Euro Merched 2025 UEFA o gymharu a'r gwariant ar Gwpan y Byd y dynion FIFA 2022?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.39

Gwnaeth **Julie Morgan** ddatganiad am – Wythnos Ymwybyddiaeth Anhwylderau Bwyta (24 Chwefror – 2 Mawrth).

Gwnaeth **Delyth Jewell** ddatganiad am – 100 mlynedd o Neuadd y Gweithwyr, Caerffili (7 Chwefror).

## 5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Plant sydd ar yr ymylon – Gohiriwyd

Gohiriwyd yr eitem hon tan 12 Mawrth

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Yr adroddiad 'Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru'

Dechreuodd yr eitem am 15.42

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8827** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol Nyrsio Cymru, Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru.

2. Yn gresynu bod pobl yn ysbytai Cymru yn cael eu trin mewn amgylchedd nad yw'n ddiogel, yn urddasol nac yn dderbyniol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu wyth argymhelliad yr adroddiad yn llawn.

Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 26 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) yr adroddiad Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru a’i argymhellion; a

b) nad yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo rhoi gofal neu driniaeth reolaidd i bobl mewn amgylcheddau anghlinigol neu anaddas.

2. Yn cydnabod bod adegau pan fo’r GIG yn wynebu pwysau eithriadol, a all olygu bod pobl weithiau'n aros am amser hirach mewn rhannau o’r system ysbytai.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda'r GIG ac awdurdodau lleol i wella’r sefyllfa o ran rhyddhau pobl o'r ysbyty yn amserol ac i gefnogi gwasanaethau gofal cymunedol uwch i ddarparu dewisiadau amgen yn lle mynd i'r ysbyty lle bynnag y bo modd.

Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 24 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y’i diwygiwyd:**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) yr adroddiad Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru a'i argymhellion; a

b) nad yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo rhoi gofal neu driniaeth reolaidd i bobl mewn amgylcheddau anghlinigol neu anaddas.

2. Yn cydnabod bod adegau pan fo'r GIG yn wynebu pwysau eithriadol, a all olygu bod pobl weithiau'n aros am amser hirach mewn rhannau o'r system ysbytai.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda'r GIG ac awdurdodau lleol i wella'r sefyllfa o ran rhyddhau pobl o'r ysbyty yn amserol ac i gefnogi gwasanaethau gofal cymunedol uwch i ddarparu dewisiadau amgen yn lle mynd i'r ysbyty lle bynnag y bo modd.

Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 24 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 7 Dadl Plaid Cymru – Gaza

Dechreuodd yr eitem am 16.24

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8830** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ailddatgan:

a) condemniad y Senedd o ymosodiadau Hamas ar sifiliaid Israel ar 7 Hydref 2023 ac ymateb milwrol Israel, sydd wedi arwain at farwolaethau mwy na 60,000 o bobl Palesteina ac wedi golygu bod angen cymorth dyngarol brys ar filiynau o sifiliaid yn Gaza yn groes i gyfraith ryngwladol; a

b) cefnogaeth y Senedd ar gyfer cadoediad parhaol, mynediad llawn i sefydliadau dyngarol, dychwelyd gwystlon a charcharorion, a heddwch cyfiawn a pharhaol drwy ddatrysiad dwy wladwriaeth.

2. Yn galw ar Lywodraeth y DU:

a) i gefnogi gwaith y Llys Troseddol Rhyngwladol wrth ddwyn i gyfrif arweinwyr Israel a Hamas sydd wedi eu cyhuddo o gyflawni troseddau rhyfel;

b) i gondemnio fel glanhau ethnig gynigion yr Arlywydd Trump i ddiboblogi Gaza; ac

c) i atal yr holl allforion arfau i Israel yn unol â chyfraith ryngwladol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i adolygu trefniadau caffael a buddsoddiadau'r sector cyhoeddus i sicrhau bod safonau moesegol yn cael eu cynnal;

b) i ymrwymo rhagor o gefnogaeth ddyngarol i Gaza; ac

c) i gefnogi cymunedau yng Nghymru sydd â chysylltiadau â Phalesteina ac Israel.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 39 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at farwolaethau sifiliaid diniwed Israel a Phalestina a'r effaith ddynol ddinistriol o ganlyniad i'r gwrthdaro yn Gaza yn dilyn ymosodiadau terfysgol dan arweiniad Hamas a chymryd gwystlon ar 7 Hydref 2023.

2. Yn cefnogi ymdrechion i sicrhau bod cymorth dyngarol yn cael ei ddarparu ar frys i'r rhai mewn angen.

3. Yn ailddatgan cefnogaeth y Senedd i ryddhau'r holl wystlon sy'n weddill, sicrhau cadoediad parhaol, a chael datrysiad dwy wladwriaeth er mwyn sicrhau heddwch parhaol yn y rhanbarth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 37 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

safbwynt llywodraeth y DU bod rhaid i sifiliaid Palesteina allu dychwelyd i'w cartrefi ac ailadeiladu eu bywydau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 38 | 1 | 11 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

i gefnogi rheolaeth y gyfraith a gwaith y Llys Troseddol Rhyngwladol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 13 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ailddatgan:

a) condemniad y Senedd o ymosodiadau Hamas ar sifiliaid Israel ar 7 Hydref 2023 ac ymateb milwrol Israel, sydd wedi arwain at farwolaethau mwy na 60,000 o bobl Palesteina ac wedi golygu bod angen cymorth dyngarol brys ar filiynau o sifiliaid yn Gaza yn groes i gyfraith ryngwladol;

b) cefnogaeth y Senedd ar gyfer cadoediad parhaol, mynediad llawn i sefydliadau dyngarol, dychwelyd gwystlon a charcharorion, a heddwch cyfiawn a pharhaol drwy ddatrysiad dwy wladwriaeth; ac

c) safbwynt llywodraeth y DU bod rhaid i sifiliaid Palesteina allu dychwelyd i'w cartrefi ac ailadeiladu eu bywydau.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i adolygu trefniadau caffael a buddsoddiadau'r sector cyhoeddus i sicrhau bod safonau moesegol yn cael eu cynnal;

b) i ymrwymo rhagor o gefnogaeth ddyngarol i Gaza;

c) i gefnogi cymunedau yng Nghymru sydd â chysylltiadau â Phalesteina ac Israel; a

d) i gefnogi rheolaeth y gyfraith a gwaith y Llys Troseddol Rhyngwladol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 13 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.33

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.38

**NDM8826** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus yng nghymunedau ôl-ddiwydiannol Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.01

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Mawrth 2025**